Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Ar ôl bwlch o dair blynedd oherwydd covid cynhaliwyd yr Eisteddfod eto pan gafwyd cystadlu brwd a safonol mewn awyrgylch hwyliog a chartrefol nos Wener 21 a Sadwrn 22 Ebrill. Eleni am y tro cyntaf, gan fod y ddwy ysgol wedi eu ffederaleiddio cafwyd disgyblion o Ysgol Pen-llwyn yn ogystal â Phenrhyn-coch a chafwyd neuadd lawn gydol y sesiwn. Roedd yn braf gweld cyfeillion o'r Wcrain yn mwynhau yn y gynulleidfa ar y ddeuddydd.

Gwelwyd cystadleuwyr o ardal ehangach ar y pnawn Sadwrn yn yr adran cynradd. Er mai prin oedd y nifer cafwyd cystadleuwyr o safon a hynny ar bron pob cystadleuaeth yn ystod y noson.

Y beirniaid eleni oedd: Nos Wener (Lleol) : Cerdd – Bethan Ruth, Machynlleth. Llefaru: Carwyn Hawkins, Caerdydd. Dydd Sadwrn (Agored): Cerdd : Arfon Williams, Cwmtirmynach; Llefaru: Ian Lloyd Hughes, y Bala a Llên: Emyr Lewis, Aberystwyth. Cyfeiliwyd gan Lona Phillips, Abermagwr.
Yr Arweinyddion oedd Catryn Lawrence a Manon Reynolds (Dydd Gwener), Gregory Vearey-Roberts, Gwenno Morris, Llifon Ellis, Sara James a Sara Gibson.
Y llywyddion oedd Mark Roberts, Caerdydd (Matthew yn Pobol y Cwm), – nos Wener; Gill Saunders Jones, Llandre, pnawn Sadwrn a Lowri Guy, Caerdydd (nos Sadwrn).
Swyddogion y pwyllgor yw: Cadeirydd: Marianne Jones-Powell; Ysgrifennydd : Ceris Gruffudd; Is-ysgrifennydd: Llio Adams; Trysoryddion: Eleri James ac Elin Haf Williams.
Yn anffodus wrth baratoi y Neuadd fore Gwener cafodd y Cadeirydd ddamwain olygodd ei bod yn dal yn Ysbyty Bron-glais wythnos yn ddiweddarach yn disgwyl triniaeth – gyrrwn ein dymuniadau gorau i Marianne Jones Powell.

Yn y cyfarfod nos tynnwyd sylw at ddarllenfa hardd gan y saer crefftus o Benrhyn-coch – Keith Morris (oedd hefyd wedi gwneud y gadair fach) gomisiynwyd gan Bwyllgor y Neuadd er cof am y cymwynaswr mawr Dei Rees Morgan fu farw yn 2019. Roedd yn Gadeirydd Neuadd y Penrhyn, yn eisteddfodwr brwd oedd yn cystadlu'n gyson ar yr adroddiad digri ac yn arwain yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch.

Croesawyd nifer o gyfeillion o Wcrain – teulu sydd yn byw yn y pentref ar y nos Wener a thair cenhedlaeth o'r dref ar y nos Sadwrn – y cyfan yn mwynhau safon uchel y cystadlu gan drigolion lleol.

Canlyniadau
NOS WENER (lleol)

1 Unawd Meithrin Dim cystadlu

2 Llefaru Meithrin Dim cystadlu

3 Unawd (Dosbarth Derbyn) 1 Eve Thomas 2 Ania Hughes 3 Leisia Davies

4 **Unawd (Blwyddyn 1-2)** 1 Isla Dimmack 2 Casi Roberts 3 Sion Gibson

5 Unawd (Blwyddyn 3-4) 1 Kaeden Cornell 2 Poppy Canning 3 Bella Reiss Greenhouse

6 Unawd (Blwyddyn 5-6) 1 Twm Williams 2 Rhys Mills 3 Harrison Hughes ac Anwen Ingram

7 Unawd Offeryn Cerdd (cynradd) 1 Kai Jakubek 2 Iona Parry 3 Jac Jenkins

8 Unawd Ysgol Uwchradd Dim cystadlu

9 Unawd Offeryn Cerdd (Ysgol Uwchradd) Dim cystadlu

10 Llefaru (Dosbarth Derbyn) 1 Oscar Makaruk 2 Leisia Davies 3 Jac Harding

11 Llefaru (Blwyddyn 1-2) 1 Sion Gibson 2 Isla-Rose Swift 3 Isla Dimmack ac Olivia Dowse

12 Llefaru (Blwyddyn 3-4) 1 Iona Parry 2 Mabli ap Llywelyn 3 Kai Jakubek a Talys Price

13 Llefaru (Blwyddyn 5-6) 1 Jac Jenkins 2 Harrison Hughes 3 Llinos Rowlands

14 Llefaru Ysgol Uwchradd. Dim cystadlu

15 Parti Canu 1 Stewi a Rheidol 2 Seilo a Melindwr

16 Parti Llefaru 1 Stewi a Rheidol 2 Seilo a Melindwr

17 Sgen ti dalent 1. Parti Dawns Ysgol Penrhyn-coch a Pharti Llefaru Ysgol Pen-llwyn 2. Ava, Talys a Bella; ac Ifan Ellis

Tlws yr Ifanc (dan 25 oed): Elin Pierce Williams, Bow Street

DYDD SADWRN

Unawd Dosbarth Derbyn ac Iau Neb yn cystadlu

Llefaru Dosbarth Derbyn ac Iau Neb yn cystadlu

Unawd Blwyddyn 1 Sion Gibson, Penrhyn-coch. 2 Leusa Myfanwy, Clarach.

Llefaru Blwyddyn 1 1 Llew Salisbury, Aberystwyth Cydradd 2 Sion Gibson, Penrhyn-coch Hanna Guy, Caerdydd.

Unawd Blwyddyn 3 a 4 1 Nanw Melangell, Cwrtnewydd 2 Elinor Jenkins, Clarach

Llefaru Blwyddyn 3 a 4. 1 Elsa Aneurin, Llanfihangel-y-creuddyn a Nanw Melangell, Cwrtnewydd. 2 Now Schiavone, Aberystwyth

Unawd Blwyddyn 5 a 6 3 Mirain Evans, Llandre

Llefaru Blwyddyn 5 a 6 1 Moi Schiavone, Aberystwyth. 2 Meia Elin, Llanfihangel-y-Creuddyn 3 Mirain Evans, Llandre

Unawd Ysgol Uwchradd 1 Ioan Mabbutt, Aberystwyth. 2. Owen Jac, Rhydyfelin. 3. Cayden Holmes, Penrhyn-coch.

Llefaru Ysgol Uwchradd 1 Elan Mabbutt, Aberystwyth

Unawd Cerdd dant dan 18 oed 1 Nanw 2 Mirain Evans, Llandre 3 Meia Elin, Llanfihangel-y-Creuddyn.

Unawd Alaw Werin dan 18 oed (digyfeiliant) 1. Meia Elin, Llanfihangel-y-Creuddyn. 2 Mirain Evans, Llandre 3. Owen Jac, Rhydyfelin.

Unawd Offeryn Cerdd dan 18 oed 1.Wil Guy, Caerdydd,

Unawd 18-30 1 Beca Willians, Rhydyfelin

Llefaru 18-30 Neb yn cystadlu

Unawd Sioe Gerdd dan 30 oed 1 Beca Willians, Rhydyfelin 2. Gwen Gibson, Penrhyn-coch

Canu Emyn dros 60 oed 1 Gwyn Jones, Llanafan

Alaw Werin (Agored) Cydradd 1 Greg Roberts, Penrhyn-coch a Beca Willians, Rhydyfelin

Ensemble Lleisiol 1. Bois y Crysa Siec (Barry, Efan a Greg)

Llefaru i ddysgwyr - Neb yn cystadlu

Parti canu 1 Rhieni ac athrawon Penrhyn-coch a Pen-llwyn

Parti Llefaru (Agored) Drudwns Aber

Côr: Dim cystadlu

Sgen Ti Dalent? 1 Gwen Gibson ac Amelia Welsby (Deuawd)

Unawd Gymraeg 1 Barry Powell, Llanfihangel-y-creuddyn 2 Efan Williams, Lledrod 3 Gwyn Jones, Llanafan

Her Adroddiad (Agored) – 1 Maria Evans, Caerfyrddin

Her Unawd – Hunan Ddewisiad. 1 Efan Williams, Lledrod 2. Barry Powell, Llanfihangel-y-creuddyn 3.Greg Roberts, Penrhyn-coch

LLENYDDOL

Cadair: Morgan Owen, Rhydyfelin

Englyn: Vernon Jones, Bow Street

Telyneg: Vernon Jones, Bow Street

Cerdd benrhydd: Y Parchg Judith Morris, Penrhyn-coch

Brawddeg: Aled Evans, Trisant

Stori fer: Anwen Pierce, Bow Street

Erthygl: Carys Briddon, Tre'r-ddôl

Adolygiad: Dim cystadlu

Limerig: Myfanwy Roberts, Llanrwst

Tlws yr Ifanc (Llenyddol): Elin Pierce Williams, Bow Street